CYNGOR TREF LLANGEFNI

COFNODION Cyfarfod Llawn Cyngor Tref Llangefni, **NOS LUN 12fed o HYDREF 2020 am 6.30y.h.** trwy gyfrwng TEAMS.

PRESENNOL : Cyng. Margaret Thomas - Cadeirydd,
Cyng. Ieuan G. Davies Cyng. Victor Hughes
Cyng. Terry Jones Cyng. Jamie Jones
Cyng. J. Egryn Lewis Cyng. J. Huw Owen
Cyng. Richard Parry Cyng. Non Wyn Parry
Cyng. Christine Roberts Cyng. Gwenan Ll. Evans.

HEFYD YN BRESENNOL : Mr. Rhys Parry - Clerc
Ms. Linda Powell - Cymhorthydd Clerigol

Cadeirydd yn croesawu ac yn diolch i'r Aelodau am eu presenoldeb yn y Cyfarfod trwy gyfrwng TEAMS, ac yn cyfeirio at y sefyllfa bryderus iawn gyda COVID-19 yn ein hardal.

20/001 **YMDDIHEURIADAU :** Cyng. Arwel Môn Hughes - Cyng. John Lee.
Cynrychiolydd Heddlu Gogledd Cymru.

20/002 **DATGANIAD O DDIDDORDEB :** Dim.

20/003 **DATGANIAD DERBYN SWYDD** -
Cadeirydd yn croesawu Gwenan Evans i'w chyfarfod cyntaf fel Cynghorydd Tref, Ward Cyngar.
Clerc yn cadarnhau fod Cyng. Evans wedi galw i'r Swyddfa heddiw (12.10.2020) ac wedi arwyddo'r Datganiad Derbyn Swydd, ynghyd a derbyn y Pecyn Llawlyfr Cynghorwyr.

20/004 **SEDD WAG – WARD TUDUR**
Cadeirydd yn adrodd fod y Swyddfa wedi derbyn e-bost gan Cyng. Llinos Jones yn datgan ei bod yn ymddiswyddo fel Cynghorydd Tref Ward Tudur. Cadeirydd yn adrodd fod Llinos wedi rhoi blynyddoedd fel Cynghorydd Tref a bydd ei ymddiswyddiad yn golled enfawr i'r Cyngor Tref, Trigolion Ward Tudur a Thref Llangefni.
Cadeirydd yn cadarnhau bydd y Swyddfa yn anfon llythyr o ddiolch i Llinos am ei gwasanaeth ffyddlon a'i gwaith caled i'r Cyngor Tref dros y blynyddoedd.
Bydd y Sedd Wag yn cael ei hysbysebu yn y Flwyddyn Newydd.

20/005 **HEDDLU GOGLEDD CYMRU -** Dim Cynrychiolwyr.
Cadeirydd yn adrodd fod yr Heddlu yn ymweld â'r Swyddfa yn gyson i edrych ar y Camerâu CCTV. Bydd Staff y Swyddfa yn cael gair answyddogol gyda'r Heddwas os bydd unrhyw bryder. Cadeirydd yn cadarnhau fod yr Heddlu ar hyn o bryd yn brysur yn gweithredu canllawiau COVID-19.

20/006 **I DDERBYN CYWIRDEB COFNODION CYFARFOD LLAWN 03.02.2020**
Cadeirydd yn adrodd fod yr Aelodau wedi cael cyfle o flaen llaw i edrych ar y Cofnodion uchod.
Cyng. Terry Jones yn Cynnig a Cyng. J. Huw yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir.
PENDERFYNWYD derbyn y Cofnodion.

20/007 I YSTYRIED MATERION YN CODI O GOFNODION 03.02.2020

Cadeirydd yn datgan, os oes unrhyw gwestiynau yn codi o'r Cofnodion uchod, i'r Aelodau gysylltu gyda'r Swyddfa, i arbed amser yn ystod y Cyfarfod TEAMS yma.

1 **Eitem 20/007.1 - Ehangu'r Fynwent -** Clerc yn adrodd ar y sefyllfa ddiweddaraf ac yn cadarnhau fod Swyddog o Gyngor Sir Ynys Môn, wedi holi yn ddiweddar, ynglŷn â maint o blotiau sydd, erbyn hyn ar ôl yn y Fynwent.
Clerc yn esbonio, yn dilyn y cyfarfod diwethaf gyda Swyddog o'r Cyngor Sir, a fu awgrymu i'r Clerc ei fod yn holi perchennog tir ar ymylon y dref , os ydyw yn fodlon gwerthu darn o dir i'r Cyngor Tref ar gyfer Mynwent Newydd. Nid oedd y perchennog yn fodlon.
Clerc yn adrodd ymhellach fod Swyddogion y Cyngor Sir yn ymwybodol o'r sefyllfa ddifrifol yma, gan fod y Fynwent ar Lon Newydd bron yn llawn.
PENDERFYNWYD gofyn i'r Clerc roi mwy o bwysau ar Gyngor Sir Ynys Môn ac ateb yn ôl i'r Aelodau yn y Cyfarfod Llawn nesaf.

2 **Eitem 20/007.2 – Defnydd o Gae Chwarae, Lon Newydd –** Cadeirydd yn adrodd fod y Cytundeb Blynyddol yn barod i gael ei adnewyddu am y flwyddyn 2020/2021. Bydd y Cytundeb o dan enw'r Rheolwr newydd sydd rŵan yn gyfrifol am yr holl Dimau Pêl Droed yn Llangefni.
PENDERFYNWYD trafod y Cytundeb Blynyddol uchod ymhellach mewn Cyfarfod o'r Is-bwyllgor Y Fynwent a Meysydd Chwarae, dyddiad i'w drefnu.

20/008 I DDERBYN CYWIRDEB COFNODION CYFARFOD LLAWN ARBENNIG 17.02.2020 - HEN LYS SIROL

Cadeirydd yn esbonio fod Perchennog y tir o gwmpas safle'r Llys yn awyddus i werthu ac yn gofyn oddeutu £5,000.00 am y tir. Clerc wedi llwyddo i gael lleihad yn y swm yma, i lawr i £3,000.00.
PENDERFYNWYD derbyn y Cofnodion fel rhai cywir.

20/009 I DDERBYN CYWIRDEB COFNODION CYFARFOD LLAWN ARBENNIG 04.03.2020 - CWMNI CHIEF PROPERTIES LTD.

Clerc yn adrodd fod llythyr pellach wedi ei dderbyn gan Gyfreithiwr y Cwmni uchod ac ei fod yn derbyn cyngor gan Gyfreithiwr y Cyngor Tref ar gynnwys y llythyr.
PENDERFYNWYD derbyn y Cofnodion fel rhai cywir.

20/010

1 **I DDERBYN PENDERFYNIADAU IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO 19.02.2020**

2 **PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO - AELODAU'R IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO TRWY GYFNOD MAWRTH-MEDI 2020**
PENDERFYNWYD derbyn yr uchod.

20/011 I DDERBYN UNRHYW GYFATHREBON Y MAER

1 **Gwasanaeth Sul y Cofio - 08.11.2020 -** Cadeirydd yn adrodd, yn anffodus, yn unol â Chanllawiau'r Llywodraeth a Chanllawiau'r Lleng Prydeinig Brenhinol lleol, yn dilyn Pandemic COVID-19, fod Gwasanaeth Sul y Cofio wedi ei ganslo eleni.
Cadeirydd yn cadarnhau y bydd hi yn gosod Plethdorch ar ran Aelodau'r Cyngor Tref ar yr 8fed o Dachwedd 2020, am 11.00 am., gyda Grŵp bach o "Veterans" yn bresennol.
Derbyn.

PARHAD 20/011

2 **Noson Troi'r Goleuadau Nadolig Ymlaen –** Cadeirydd yn adrodd, unwaith eto, oherwydd sefyllfa ddifrifol COVID-19, ni fydd y Cyngor Tref yn annog unigolion i ymgynnull o gwmpas canol y dref, fel yn y gorffennol, yn ystod Noson Troi'r Goleuadau Nadolig Ymlaen. **PENDERFYNWYD** troi'r Goleuadau Nadolig ymlaen eleni yn ystod yr wythnos gyntaf o Ragfyr 2020, a dim gweithgareddau yn cael eu trefnu. **Derbyn.**

20/012 MATERION YN CODI GAN AELODAU -

Cadeirydd yn adrodd fod dim Materion yn Codi gan Aelodau wedi eu derbyn trwy'r Swyddfa.

Cadeirydd yn datgan ymhellach fod llinell ffôn y Swyddfa yn gweithredu dros dro a bydd y rhif gwreiddiol mewn defnydd cyn diwedd y mis. Hefyd, oherwydd rheolau BT gyda sefyllfa COVID-19, nid oedd Peiriannydd yn gallu mynychu'r Swyddfa i weithio ar y Band Llydan, felly nid oedd Cyfrifiaduron y Swyddfa ar lein hyd at ddiwedd Mehefin.

20/013 ADRODDIAD Y CLERC

1 **Pecyn Rhaglen Cyfarfod Llawn -** Clerc yn gofyn am farn yr Aelodau o dderbyn y Pecyn ar gyfer y Cyfarfod Llawn o hyn ymlaen, unai trwy e-bost neu gasglu yn y Bylchau, o flaen llaw, fel yn y gorffennol. **PENDERFYNWYD** dilyn y patrwm gorffennol o dderbyn y Rhaglen trwy e-bost a chasglu'r Pecyn Llawn o'r Bylchau.

2 **Crynodeb o Faterion wedi Derbyn Sylw trwy'r Swyddfa yn ystod Pandemic COVID-19 23.03.2020**

Clerc yn arwain yr Aelodau trwy'r Ddogfen uchod, fel a ganlyn :

1. **Y Swyddfa :**

(a) **Gwresogi'r Hen Lys Sirol** - Dim Trafodaeth.

(b) **Gwasanaeth Ffôn/Internet/BT** – Y Swyddfa heb wasanaeth ffôn a Band Llydan hyd at 26ain o Fehefin 2020 ac wedi disgwyl hyd at ddiwedd mis Awst i gwblhau'r gwaith. Gobeithio bydd rhif ffôn gwreiddiol y Swyddfa yn gweithredu erbyn diwedd mis Hydref.

(c) **Trefniadau COVID-19 –** Dim Trafodaeth.

(d) **Paentio'r Swyddfa** – Clerc yn adrodd, gan mai prif fwriad y Cyngor Tref, wrth brynu'r Llys Sirol, oedd ceisio llogi rhai o'r Ystafelloedd ar y llawr cyntaf a bod angen peintio'r ystafelloedd i'w dod i fynnu i safon uwch. Clerc wedi derbyn amcan bris o £1,000.00 am y gwaith yma.
Cyng. Victor Hughes yn Cynnig a Cyng. Ieuan Davies yn Eilio i dderbyn y pris uchod.
PENDERFYNWYD gofyn i'r Clerc symud ymlaen gyda'r trefniadau i gael paentio llawr cyntaf y Llys.

2. **Ystafell 109 Neuadd y Sir – Cwmni Chief Properties Ltd.** – Clerc yn arwain yr Aelodau trwy ohebiaeth ddiweddar rhwng y partïon ynglŷn â setlo'r Bil yn dilyn ymadael Ystafell 109. Clerc yn adrodd fod y swm gwreiddiol o £2,500 wedi ei wrthod gan y Cyn-letywr. Cyng. Richard Parry yn cynghori, er mwyn dŵad a'r mater i ben, cynnig £3,000.00, i'r Cwmni uchod. Cyng. Victor Hughes yn Eilio.
PENDERFYNWYD yn unfrydol i ofyn i'r Clerc roi'r cynnig uchod ymlaen i'r Cyfreithiwr.

3. **Ystâd Pen Derwydd** - Clerc yn adrodd ei fod wedi ymweld â'r safle, yn dilyn llawer o gwynion gan drigolion fod y darn tir answyddogol o hyd yn cael ei ddefnyddio fel llwybr, sydd yn rhedeg tu cefn i rhai o'r tai. Mae hyn yn achosi pryderon am y sefyllfa gwrthgymdeithasol mae trigolion yr Ystâd yn wynebu. Mae'r Heddlu yn ymwybodol o'r cwynion ac yn gyson yn gofyn i'r trigolion ffonio Llinell 101 pan mae trafferthion.

Clerc yn awgrymu gosod ffens i rwystro'r mynediad answyddogol, ac wedi derbyn pris o

PARHAD 20/013

£500.00 am y gwaith yma, gyda'r gobaith o dderbyn Grant tuag at hyn a hefyd i blannu Coed.
Yn dilyn trafodaeth hir, Cyng. Victor Hughes yn awgrymu gosod ffens fetel 5 troedfedd parhaol ac nid ffens draddodiadol, fasa mwy tebygol o gael ei fandaleiddio. Clerc yn datgan pryder am y gost o godi ffens fetel, yn dilyn derbyn amcan bris yn y gorffennol am waith tebyg.
PENDERFYNWYD gofyn i'r Clerc edrych i mewn i gael prisiau ffensio fel cymhariaeth, i roi ger bron y Cyfarfod Llawn nesaf. **Derbyn.**

4. **Les Tŷ Clwb, Lon Talwrn -** Clerc yn cadarnhau fod y gwaith cyfreithiol wedi ei gwblhau, a'r Les wedi ei harwyddo ar 16.08.2020, a bod trefniadau mewn lle i drosglwyddo'r allweddau i Reolwr y Clwb Pêl Droed. **Derbyn.**
5. **Arolygiad RoSPA 2020 -** Clerc yn adrodd fod Arolygiad RoSPA eleni wedi ei chwblhau a fod dim pryderon. **Derbyn.**

20/014 ADRODDIADAU PWYLLGORAU ALLANOL

1 **Cyfarfod Pump Tref/Trefi Môn 27.08.2020 -** Cadeirydd yn adrodd fod y Cais Blynyddol am gyfraniad ariannol gan Heddlu Gogledd Cymru (£14,690.55) tuag at gynnal a chadw Camerâu CCTV'r Pump Tref, yn cael ei brosesu. Bydd yr arian yn cael eu rhannu yn gyfartal rhwng y Pump Tref.
Trawsnewid Trefi - Addasiadau Covid-19 Cyllid Cyfalaf yn 2020/21 £10,000 - Cadeirydd yn adrodd fod y Clerc wedi derbyn gohebiaeth gan Ddirprwy Brif Weithredwr, Cyngor Sir Ynys Môn, yn datgan bydd £10,000.00 yr un, yn cael eu dyfarnu i'r Pump Tref, i'w ddefnyddio yn ôl disgresiwn lleol ar yr amod bod y defnydd yn cydymffurfio ac amodau Llywodraeth Cymru.
Cadeirydd yn datgan ymhellach fod y canllawiau yn dynn ofnadwy a'r cyllid i'w ddefnyddio i ddarparu newidiadau pellhau cymdeithasol yn y dref, yn dilyn Pandemic COVID-19.
Cadeirydd yn cadarnhau fod y Clerc wedi cwblhau a chyflwyno'r Cynnig Prosiect Grant i'r Cyngor Sir ac yn arwain yr Aelodau drwy gynnwys cais Cyngor Tref Llangefni.

Cadeirydd yn rhoi gwybod i'r Aelodau ei bod, fel Maer y Dref, wedi rhoi cyfraniad ariannol, o lwfans y Maer, tuag at y Banc Bwyd yn Llangefni. **Derbyn.**

20/015 CYLLID

1 **I DDERBYN CRYNODEB MANTOLEN ARIANNOL MAWRTH-MEDI 2020**
Clerc yn datgan, os oes unrhyw gwestiynau yn codi o'r Fantolen Ariannol i'r Aelodau gysylltu gyda'r Swyddfa. **PENDERFYNWYD** derbyn y Fantolen Ariannol.

2 **ARCHWILIAD MEWNOL AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31.03.2020** Aelodau wedi cael cyfle o flaen llaw i edrych ar y Ddogfen uchod. Cyng. Richard Parry yn Cynnig a Cyng. Victor Hughes yn Eilio i dderbyn y Ddogfen. **PENDERFYNWYD** cymeradwyo a derbyn y Ddogfen uchod ynghyd ac Adroddiad Swyddog Ariannol Cyfrifol Dros Dro ar Restr Gwaith yn ymateb i Adroddiad Cyngor Gwynedd. **PENDERFYNWYD YMHELLACH** i anfon y wybodaeth ymlaen i'r BDO.

3 **I DDERBYN CYNLLUN GWEITHREDU I'R ARCHWILIAD MEWNOL - HYDREF 2020**
PENDERFYNWYD derbyn y Ddogfen uchod.

20/016 **ADRODDIAD MISOL CYNGOR SIR YNYS MÔN -** Dim Cynrychiolydd
Cadeirydd yn datgan fod gohebiaeth sydd yn cael eu derbyn yn y Swyddfa yn cael eu hanfon ymlaen, trwy e-bost i'r Aelodau, gyda chopi caled i Cyng. J. E. Lewis. **Derbyn.**

20/017 **GOHEBIAETH A MATERION NEWYDD**

1 **Cyfraniadau – Llythyrau o Ddiolch –** Derbyn

2 **Gwybodaeth ynghylch cynnal Cyfarfodydd Tref a Chymuned -** Neges ar Ran Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Sir Ynys Môn - E-bost 05.10.2020 **Derbyn.**

20/018 **GOHEBIAETH : Er Gwybodaeth – Wedi eu hanfon trwy e-bost**

1 **Un Llais Cymru** - Derbyn

2 **Materion Eraill** - Derbyn.

20/019 **I YSTYRIED UNRHYW FATER BRYS GAN Y MAER**
Cadeirydd yn diolch yn fawr i bawb am fod yn wyliadwrus yn ystod Pandemic COVID-19 ac yn ddiolchgar iawn i Cyng. Jamie Jones, Cyng. Christine Roberts, Cyng. Gwenan Evans ac hefyd Staff Allanol y Cyngor Tref am eu cyfraniad i gadw'r Gymuned yn ddiogel.

Cyng. Victor Hughes yn cydnabod fod Cyng. Margaret Thomas wedi bod yn eithriadol o weithgar yn ystod y misoedd diwethaf, ac yn diolch i Cyng. Thomas am ei holl waith ac hefyd i Staff y Swyddfa am eu gwaith cymorth yn y cefndir.

Cadeirydd yn diolch i Cyng. Hughes am y gydnabyddiaeth uchod a hefyd yn diolch i staff y Swyddfa am eu cefnogaeth.

20/020 **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**
Nos Lun, 9fed o Dachwedd 2020 am 6.30y.h. drwy Gyfrwng TEAMS.

Diwedd y Cyfarfod 7.45y.h.

CYNG. MARGARET THOMAS
CADEIRYDD